

Cwmpawd

CARU DUW, CARU CYMRU A CHARU ERAILL



BETH MAE'R
NADOLIG YN
EI OLYGU
I CHI?

tt. 8-9

WHAT DOES CHRISTMAS
MEAN TO YOU?

Special Castell Coch Event^{p. 4}

Carol y Ffordd gan
^{t. 3} Christine James

Digwyddiadau
Nadolig Lleol 2022.^{tt. 4-6}
Local Christmas Events

Christmas
Hot Punch
and activities
for families^{t. 5, 10-11}



Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

@CwmpawdCaerdydd | www.cwmpawd.org | gwybodaeth@cwmpawd.org | Rhif Elusen: 199509

Helo a chroeso i rifyn bach y Nadolig o Cwmpawd.

Sut fyddwch chi'n dathlu'r Nadolig eleni?

Addurno'r tŷ, bwydydd arbennig, neu efallai mynd i ddigwyddiadau penodol. Beth am ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig eleni?

Rydym fel eglwys yn awyddus i ddathlu'r Nadolig gwreiddiol gyda chi. Dathlu bod y Nadolig yn ein hatgoffa ni fod Duw a'r Arglwydd Iesu yn ein caru - yn wir yn ein caru ddigon i lesu ddod i'n byd i'n hachub ni rhag ganlyniad ein natur hunan-ddinistriol.

Rydym ni fel eglwys yn eich gwahodd yn gynnes i'n gwahanol ddigwyddiadau Nadoligaidd. Byddwn i'n bersonol wrth fy modd yn cael dathlu a rhannu llawenydd y Nadolig gyda chi. Gobeithio y caf eich gweld chi'n fuan!

Lois



Fy enw i yw Lois Adams, a dwi'n gweithio i Cwmpawd: Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Fy ngwaith yw creu celf er mwyn trafod cwestiynau dwfn bywyd.


Hello and welcome to this Christmas mini-edition of Cwmpawd.

How will you be celebrating Christmas this year?

Decorating the house, special foods, or maybe going to specific events. Why not join us to celebrate Christmas?

As a church we want to celebrate the original Christmas with you. To celebrate that Christmas reminds us that God and the Lord Jesus love us, indeed they love us so much that Jesus came to earth to save us from the consequence of our self-destructive nature. We warmly invite you to our various events. I would personally love to celebrate and share the joy of Christmas with you. Hope to see you soon!

Lois



Lluniais y gerdd hon fel rhan o weithgarwch ‘Bardd y Mis’ Radio Cymru, i’w darlledu ar raglen Geraint Lloyd ar 16 Rhagfyr 2020. Yn ôl un traddodiad hynafol, dechreuodd Mair a Joseff ar eu taith hir o Nasareth i Fethlehem ar 16 Rhagfyr. Ceisiais ddychmygu eu taith anodd ar hyd y ffordd honno, a dyma ddechrau meddwl wedyn am y ffordd arw y rhuthrodd y bugeiliaid arni trwy'r tywyllwch i weld y baban lesu, a'r ffordd hir y daeth y doethion hwythau ar hyd-ddi o'r dwyrain maes o law, gan ddilyn y Seren.

Mor rhwydd, mor ddirwystr ac mor glir bellach yw ein ffordd ni at lesu, yr Un a ddisgrifiodd ei hunan fel ‘Y Ffordd’. Boed i ni gredu ynddo a'i dderbyn i'n calonnau o'r newydd y Nadolig hwn.



Yr Athro Emerita / Emerita Professor
Christine James BA PhD FLSW

Carol y Ffordd

Mae'r ffordd draw i Fethlem yn hir ac yn droellog,
mae'n arw dan draed a'r goleuni'n gwanhau;
dim gorffwys i'w gael i forwyn sy'n feichiog,
dim croeso, dim cysur, ond stabal i'r ddau.

Mae'r ffordd lawr o'r mynydd yn arw a llithrig
i lygaid a ddallwyd gan angel o'r nef;
a'u pennau yn llawn o'r fath newydd pwysig,
prysura'r bugeiliaid tua Bethlehem dref.

Mae'r ffordd draw o'r dwyrain yn bell a llawn peryg;
mae'r camelod yn flin, ond mae'r Seren yn glir
i dywys y doethion at Un heb ei debyg,
sy'n deilwng o'u rhoddion o aur, thus a myrr.

Mae'n ffordd ni at lesu yn ddirwystr bellach,
fel canol dydd golau mae Gair Duw mewn cnawd;
mab Mair, Oen di-nam, y Brenin o linach,
sy'n Arglwydd i'n cadw, i'n caru, yn Frawd.

Christine James

Cyfansoddodd Aled Myrddin alaw i gyd-fynd â'r gerdd.
Gallwch wrando a gwylia'r fideo trwy ddilyn y linc yma.
To view and hear the poem being sung, follow this link.



Carolau Castell Coch

3pm | Sul 4 Rhagfyr

Gwasanaeth Carolau yng Nghastell Coch,
Tongwylais, CF15 7JS.

Tocynnau am ddim wrth y drws yn unig.

Dewch i danio eich hwyliau Nadolig wrth ymuno yn y canu yng
Nghastell Coch! Carolau, y plygain, darllenadau, eitem plant,
danteithion a chyflwr i fyfyrw ar ystyr arbennig y Nadolig.

3pm | Sunday 4 December.

Carol Service in Castell Coch,
Tongwylais, CF15 7JS.

Free tickets at the door only.
The service will be in Welsh.






Dydd Sul 10am 11/12/22

Croeso cynnes i chi i gyd! Bydd lot o hwyl, crefftiau, canu, a chyfle i ddysgu am y Nadolig cyntaf.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y diwedd.



A warm welcome to you all! There will be lots of fun, crafts, singing, and an opportunity to learn about the first Christmas.

Light refreshments will be available at the end.

The service will be in Welsh but translation headsets are available.

CAROLAU AR Y COMIN


Oedfa Garolau Awyr Agored,
(Open Air Carol Service)
Pnawn Sul 18/12/22 4pm

Cyfarfod ar Waun Treoda (Comin yr Eglwys Newydd) ar gyfer oedfa garolau fer gyda diodydd poeth a danteithion Nadoligaidd i ddilyn. Dewch â fflachlamp a dillad cynnes!

Symudir i adeilad Y Tabernacl os yw'r tywydd yn wael.

A Welsh-language open air carol service
on Whitchurch Common, followed by
some Christmas treats. Wear warm
clothes and bring torches.

Croesair y Mawd



Ar Draws

1. Adwaith Bet wrth gefnu ar y lle hwn (6)
4. Llestr sgarlad (6)
9. Rhoi dillad am un i ymddihatru'r cnau. (7)
10. Ynglyn â 'celebs' yr oes (5)
11. 'I ----- Mair
Y tragwyddol air' (WI) (9)
12. Atsain o glec ofnadwy (3)
13. Saib i 24 ar y we (5)
15. Ffurf hen ffasiwn (5)
20. Anrheg y doeth (6)
21. 'Dros bant a bryn at -----
Oddi ar y meisydd draw' (BD) (6, 3)
23. Rhoi coflaid i William a'i sane bratiog (5)
24. Parti yn peri dadlaith annifyr (7)
25. Deunydd y teimladau (6)
26. Adrodd yn Eisteddfodol (6)

I Lawr

1. Cywasgu'r ysgall drachefn i fod fel pluen (6)
2. 'Dyw bod fel hyn ddim yn dda (5)
3. 'A Mair ar ----- gwair
Wyliai ei baban tlws' (WNW) (2, 5)
5. Griddfan bod dim cadwyn yn Lloegr (5)
6. Bu'n Saes oedd yn ymyrryd (7)
7. Cadarn Arglwydd a'i nod ar gynffon Mawrth (6)
8. Sirioli calon y dicllon niferus (5)
14. Rhai sy'n palu y gwyrd a'r diffaith (7)
16. Nid y lle i fod ar wyliau (7)
- 17+21+22. 'Y ----- ddaeth o -----
Y Deddfwr gynt ar -----'(EI) (6, 5, 5)
18. 'Ganol gaeaf noethlwm
Digon ----- trist' (SJ) (5)
19. Cnu y da yn creu cynnyrch niferus (6)
21. Gweler 17
22. Gweler 17

Beth mae'r Nadolig



"Wrth i'nheulu bach ddod ynghyd, **rholi diolch** am deulu Bethlehem a grawyd i'n gwaredu." - Gillian

"Celebrate! Celebrating the birth, life and death of our Lord Jesus Christ and sharing his sacrificial love with my fellow brothers and sisters in the faith. Singing carols and feasting together on festive treats!"

- Amanda

"Mae'r Nadolig yn fy atgoffa i o'r **gobaith sydd i ni i gyd** yn nyfodiad y Meseia i'r byd. Emmanuel, Duw gyda ni." - Lois

"Rydw i'n hoffi'r **tawelwch a'r heddwch** sy'n dod amser y Nadolig. Mae'n amser i ffwrdd o brysurdeb gwaith, cyfle i aros i mewn a chadw'n gynnes gyda ffilmiau a bwyd da. Dim stress! Ond yn bwysicach byth, mae'r cyfnod yma yn fy atgoffa bod lesu wedi dod yn ddyn er mwyn dod â **thawelwch a heddwch i'r ysbryd**. Mae gwybod hynny yn dod â 'Tawel Nos' go iawn!'" - Owain



"Mae'r Nadolig yn golygu **cariad a chynhesrwydd** i mi - mae'n amser llawn digwyddiadau teuluol, **nosweithiau wrth y tân gyda siocled poet**, ond yn bennaf dwi'n **cofio Duw yn dangos ei gariad** i ni drwy anfon lesu fel Gwaredwr i'r byd." - Angharad.

yn ei olygu i chi?

*"A rare opportunity for everyone to **slow down**, come together, and celebrate Jesus, the great Light, **overpowering the darkness.**" - Eleri*



"Cyfle prin i bawb arafu, dod ynghyd, a dathlu bod lesu, y Goleuni mawr, yn **drech na'r tywyllwch."** - Eleri

"Nadolig i fi yw'r siopau wedi cau o'r diwedd, cael treulio amser gwerthfawr gyda'r teulu a chael diolch am ryfeddod dyfodiad lesu Grist i'r byd." - Lis

*"Christmas for me is when **the shops are finally closed**, to be able to spend precious time with the family and to be thankful for the wonder of Jesus Christ's coming into the world."* - Lis



"Amser gyda fy nheulu." - Jason

"Mae teulu yn bwysig dros y Nadolig, teulu daearol a theulu ysbrydol. Pan ddes i'n Gristion, dechreuais i ddeall er mor hyfryd yw amser y Nadolig, **nid yw digwyddiadau teuluol yn ddigon. Mor fendithiol yw cwrdd â theulu'r ffydd i addoli ac i gofio'r rhodd fwyaf un, lesu. I mi yn bersonol, mae **carolau plygain yn ffordd ardderchog o gofio** gan eu bod mor gyfoethog, gyda geiriau ac alawon sy'n ein harwain at addoliad."** - Janet

Cornel y Plant Children's Corner

- 6• "Peidiwch bod ofn.
Mae gen i newyddion da i chi!" •5
7• 8• Newyddion fydd yn gwneud pobl
ym mhobman yn llawen iawn.
Mae eich Achubwr wedi cael
9• 10• ei eni heddiw, yn Bethlehem.
11• 12• 13• 14• 15• 2•



•3 Fideo i blant am storï'r
bugeiliaid.
Children's video of the
shepherds' story.



Lliwch yr olygfa o'r angel yn rhannu'r newyddion fod lesu wedi cael ei eni gyda'r bugeiliaid. Yna dyma'r bugeiliaid yn rhuthro i weld y baban. Ond beth ddigwyddodd wedyn? Dewch i'n gwasanaeth teuluol i glywed beth sy'n digwydd nesa!

Colour this scene of the angel sharing the news that Jesus has been born with the shepherds. Then the shepherds rushed to see the baby. But what happened next? Come to our family service to hear what happened!

Chwilair y Nadolig

Chwiliwch am y geiriau isod

D	L	A	A	Y	L	O	L	N	L	H	N	G	F
W	M	N	F	O	D	D	I	O	S	G	R	I	D
A	M	E	S	E	I	A	E	I	A	N	G	E	L
L	M	Y	R	R	G	A	E	G	F	L	D	R	B
T	N	M	A	I	R	I	T	E	N	L	D	S	U
B	O	I	U	A	E	L	E	H	N	A	E	F	G
E	I	I	T	H	U	S	T	R	Y	W	F	T	E
T	D	B	E	S	E	R	P	N	I	E	E	Y	I
H	D	F	F	O	I	F	E	A	S	N	N	S	L
L	Y	R	Y	E	W	N	H	O	O	Y	G	T	I
E	R	N	W	E	L	E	J	E	R	D	N	I	A
H	E	M	A	N	U	E	L	R	R	D	A	O	I
E	S	D	I	E	S	U	U	D	R	O	T	N	D
M	F	I	J	F	U	A	A	O	L	D	D	Y	E



Tangnefedd *

peace, serenity, tranquility. Having a peaceful relationship with God.



Emanuel *

or Immanuel is a Hebrew word meaning "God is with us".



Meseia*

is a name for a promised deliverer or saviour. Also means anointed. The Bible claims that Jesus was the Messiah who fulfilled all the prophecies of the Old Testament.

1ltr Sudd grawnwin

Grape juice

500ml Sudd afalau / orennau

Apple or orange juice

500ml Sudd llugaeron

Cranberry juice

2 Oren (wedi eu sleisio)

Oranges (sliced)

- Dyrniad o ffyn sinamon neu
risgl cassia sinamon

*A handful of cinnamon sticks
or cassia cinnamon bark*

- 10 Clôf / *Cloves*

- 8 Seren anise / *Star anise*

Rhowch bopeth mewn sosban fawr a
gadewch iddo fudferwi'n ysgafn nes
ei fod yn cyrraedd y tymheredd cywir
i'w yfed. Arllwyswch y ddiod trwy
ridyll cyn ei weini neu defnyddiwch
letwad. Yn olaf, ychwanegwch
ychydig o garnais at y ddiod, fel
sleisen oren, ffon sinamon neu seren.

PWNSH POETH NADOLIGAIDD

CHRISTMAS HOT PUNCH



*Place everything in a large
saucépan and let it simmer gently
until it reaches the right
temperature to drink. Pour through
a sieve before serving, or use a
ladle. Finally add some garnish to
the drink, e.g. an orange slice, a
cinnamon stick or a star.*

Dyddiadau | Dates

4/12/22 Carolau Castell Coch | *Carol Service*. 3pm at Castell Coch

11/12/22 Oedfa Deuluol | *Family Service*. 10am yn Y Taberncl

18/12/22 Carolau ar y Comin, Yr Eglwys Newydd | *Carols on Whitchurch Common*. 4pm

25/12/22 Oedfa Bore'r Nadolig | *Christmas Day Service*. 10am yn Y Taberncl

Edrychwrch allan am yr Helfa Nadolig | *Look out for the Nativity Trail*.

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

Cwrdd bob Sul (Meet every Sunday) @ 10am a 5pm yn

Y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 1DD

@CwmpawdCaerdydd

www.cwmpawd.org

gwybodaeth@cwmpawd.org

Rhif Elusen: 199509

